

LIVE MUSIC NOW

BWRIAD STRATEGOL

TACHWEDD 2021

PWY YDYN NI

Mae Cerddoriaeth yn hawl dynol datganedig¹: yn iaith a rennir, yn un sy'n reddfodol ac yn cael ei deall ar draws y byd i gyd. Mae'n ffurfio perthnasoedd dynol a chymunedol. Ac eto, mynediad cyfyngedig i weithgareddau cerddorol sydd gan nifer sy'n dioddef eithrio cymdeithasol, ynysu neu anfantais.

Elusen yw Live Music Now sy'n gweithio ac yn ymgyrchu i greu effaith cymdeithasol cynhwysol, mesuradwy drwy gerddoriaeth. Drwy harneisio pŵer cerddoriaeth a gwerthuso ei heffaith rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl nad sy'n cael eu cynrychioli a phobl fregus ein cymdeithas. Dangosodd ein gwaith ei fod yn gwella iechyd a llesiant, yn creu sgiliau a hyder ac yn cynyddu ymgysylltiad a thegwch cyfle drwy gydnabod potensial bob unigolyn.

Rydyn ni'n cysylltu cerddorion proffesiynol gyda phobl hŷn (llawer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau, teuluoedd sy'n byw drwy heriau a gofalwyr a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eraill. Drwy gysylltu profiadau, mae ein cerddorion yn ysbrydoli ac yn cefnogi pobl i fyw bywydau cerddorol

ac i gael hyd i hapusrwydd drwy ryddhau digwyddiadau cerddorol a chreu atgofion sy'n cadarnhau bywyd.

Sefydlwyd Live Music Now gan y cerddor Yehudi Menuhin a'r dyngarwr Syr Ian Stoutzker, oedd yn credu bod gan bawb yr hawl i fyw bywydau cerddorol llawn. Heddiw, tanategir gwaith Live Music Now gan waith ymchwil, partneriaethau traws-sectorau, eiriolaeth a datblygiad proffesiynol cerddoriaeth ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r gymuned ryngwladol.

Hanes

Ers ei sefydlu ym 1977, mae Live Music Now wedi bod yn gweithredu ar ben blaen profiadau cerddorol trawsffurfiol am 44 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi sefydlu enw da fel arweinydd sector gan gynnig llwybr datblygu pwysig i gerddorion proffesiynol. Ers cyflwyno Cyfarwyddwyr Strategol yn 2011, gyda rolau'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a llesiant, mae enw da Live Music Now wedi cryfhau ar draws y meysydd allweddol hyn. Gydag effaith ymhell y tu hwnt i'w faint, mae'r sefydliad wedi sefydlu ei hun yn ddwfn yn y sectorau cerdd a diwylliant y Deyrnas Unedig a'r sectorau celfyddyd a iechyd.

“Cerddoriaeth, o bob un o'r prif gelfyddydau, yw'r iaith sy'n treiddio ddyfnach i mewn i'r ysbryd dynol, gan gyrraedd pobl drwy bob rhwystr, anabledd, iaith ac amgylchiad ... fel ei fod yn gallu cysuro, gwella a chreu hyfrydwch.”

Yehudi Menuhin



Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd Yehudi Menuhin yn chwarae i Luoedd y Cynghreiriaid oedd wedi brifo.

¹ Erthygl 27, Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, 1948.



Yn ystod y 44 mlynedd o'i hanes, mae Live Music Now wedi hyfforddi a dylanwadu ar yrfaoedd miloedd o gerddorion a chyrraedd miliynau o bobl sy'n profi amgylchiadau heriol. Dros y bum mlynedd ddiwethaf, gwelodd sawl llwyddiant nodedig gan gynnwys:

- 'Côr ym Rhob Cartref Gofal' a elwir yn 'Cerddoriaeth Fyw mewn Gofal' gan gynnwys astudiaeth ymchwil gyda Phrifysgol Caerwyt yn ychwanegu tystiolaeth newydd am fuddiannau cerddoriaeth fyw mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion.

- Y Tasglu Gofal Cerddorol, mewn partneriaeth gyda Cherddoriaeth ar gyfer Dementia
- Cymdeithas Frenhinol Cynadleddau Meddygaeth yn archwilio'r defnydd o gerddoriaeth yn cael effaith positif ar wahanol anhwylderau niwrolegol ymhlith pobl hŷn ac ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu
- Rhaglen breswyl barhaus gydag Ysbyty Plant Alder Hey
- Rhaglen 'Ysbrydoli' gyda phlant a phobl ifanc i gynyddu darpariaeth o gerddoriaeth mewn ysgolion addysg arbennig
- Dathlu canmlwyddiant Menuhin gan gynnwys ymddangos mewn rhaglen ddogfen ar BBC4 am ei fywyd
- Menter Cerddoriaeth yr Oes Newydd a'r gwaith comisiwn *The Sky Begins to Change*.

Dod â Cherddoriaeth yn Fyw – 2017 i 2022

Yn 2017, lansiodd Live Music Now *Dod â Cherddoriaeth yn Fyw*, strategaeth uchelgeisiol bum mlynedd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, parhau i hyfforddi cerddorion proffesiynol i weithio mewn lleoliadau heriol a chynyddu darpariaeth i ddau grŵp allweddol o fuddiolwyr: pobl hŷn a phlant anabl ag anghenion addysgol arbennig.

Wrth ganolbwyntio ar bum prif nod: Cyrraedd, Rhagoriaeth, Ymgysylltu Ehangach, Gwerthuso ac Eiriolaeth, roedd yn llwyddo i gyflwynu'n gynnar a chreu meincnodau cynnar ac i greu meincnodau newydd ar gyfer gwerthuso ar draws y sefydliad.

Fodd bynnag, mae effaith COFID-19 a'r newid cyflym yn y tirlun yn y DU yn gofyn am ymagwedd newydd cyn cwblhau'r gwaith hwnnw. Mae Live Music Now wedi croesawu Cadeirydd newydd, Syr Vernon Ellis a Phrif Weithredwr newydd, Janet Fischer. Wedi cyfuno gyda datblygiad mewn strategaeth a gweledigaeth partneriaid y prif sector a Chynghorau Celfyddydau Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, mae angen bwriad strategol newydd deinamig ac ymatebol: un sy'n galluogi Live Music Now i fod yn addasol ac yn ddyfeisgar gan roi ein cymunedau ar flaen ein gwaith, gweithio'n agosach gyda'n partneriaid, amrywio a chynyddu gwytnwch ein gweithlu a'n sefydliad, datblygu ein siwrne cynhwysol sefydliadol a chymryd ein lle fel llais cenedlaethol dros newid.

BWRIAD STRATEGOL

Craidd ein bwriad strategol newydd yw'r gred bod **Live Music Now yn sefydliad sy'n cyflawni effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth**. Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol hwnnw drwy gerddorion yr ystyriwn ni i fod ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf. Ceisiwn wasanaethu'r angen bythol cynyddol gan gymunedau sy'n wynebu gwaharddiad ac anfanteision cymdeithasol ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

We will achieve this through three commitments: Ceisiwn fod yn **arweinydd cydnabyddedig mewn newid cymdeithasol cadarnhaol, parhaus** drwy harneisio pŵer cysylltiol cerddoriaeth eithriadol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol pobl sy'n profi amgylchiadau heriol, anfanteision a gwaharddiad cymdeithasol
2. Datblygu a chefnogi gweithlu cerddorion proffesiynol i sicrhau safon arfer a'r deilliannau gorau ar gyfer y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu
3. Eiriol a thystiolaethu i les trawsnewidiol cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a llesiant

Pam Hunaniaeth Gerddorol a Chreadigrwydd Bywyd Llawn?

Credwn fod cerddoriaeth yn offeryn effeithlon i greu effaith cymdeithasol oherwydd ei allu cydnabyddedig i hyrwyddo cyfathrebu cyn y gair llafar a pharhau'n hirach o lawer ar ôl i bŵer lleferydd ein gadael. Mae hyrwyddo cyfathrebu'n arwain at fwy o unigolion i weithredu'n annibynnol, rheolaeth a dewis i bobl sy'n profi gwaharddiad ac anfantais gymdeithasol. Yn fwy na hynny, mae'n gosod cerddorion fel conglfaen o fewn cymunedau, gan fwyhau a chynyddu lleisiau a dwyn pobl at ei gilydd.

I Live Music Now, mae creadigrwydd bywyd cyflawn yn rhan hanfodol o fywyd boddhaus. Mae'r gred hon yn deillio o dystiolaeth ein 44 mlynedd o waith gyda phobl o bob oed ac o ddysgu oddi wrth bartneriaid a chydweithwyr ar draws y DU a thu hwnt. Mae llawenydd cyflawn mewn rhannu cerddoriaeth a mwynhau'r cyfleoedd i fynegiant creadigol y mae'n eu cynnig. Ceisiwn sicrhau bod ymgysylltiad felly'n bosibl ar draws cymdeithas.

Rydym yn dymuno gweithio mewn partneriaeth agosach gyda'n cymunedau. Mae deall profiad wedi'i fyw yn bwysig i ni fel y cyfle i ddatblygu

a llunio ein Gwaith gyda'r rhai rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan hanfodol o hyn a byddwn yn ceisio adlewyrchu'n well ein cymunedau o fewn ein gweithlu a dwyn at ei gilydd gyfoeth ein hunaniaethau amrywiol niferus i greu cynnig cydlynol a chynrychioliadol.



*Nodyn am iaith: Deallwn fod hunaniaeth gerddorol yn symiant o fywyd cerddorol a chreadigol unigolyn a ffurfir gan y gerddoriaeth y maen nhw'n ei mwynhau, ei phrofi a'i chreu.. Credwn fod gan bob un ei hunaniaeth gerddorol ei hun a grëwyd gan ei brofiad/phrofiad unigryw ei hun sy'n datblygu a thyfu drwy gydol eu bywydau.



Pwy Yw Ein Cymunedau?

Ceisiwn wasanaethu cymunedau sy'n wynebu gwaharddiad ac anfanteision cymdeithasol a bod yn ymatebol i anghenion cymdeithas. Gwelsom gynnydd mewn ynysu a gwaharddiad nifer o'n cydweithwyr ac mae hwn wedi gwaethygu oherwydd y pandemig COVID-19. Mae nifer o'n partneriaid wedi sôn am heriau cynyddol, gorfod wynebu diffyg staff hanfodol o fewn y sector Gofal Cymdeithasol Iechyd ac Oedolion a galw cynyddol am adnoddau ar draws pob lleoliad. Mae croestoriad economaidd cymdeithasol ac amgylchiadau heriol, anghyfiawnder systemig a rhwystrau sy'n creu analluogi yn gymhleth ac mae angen mewnosod ein gwaith o fewn partneriaethau

a sectorau ehangach er mwyn gwella ein gwasanaethau i unigolion. Bydd ein ffocws ar weithio gyda:

- **Plant blynyddoedd cynnar a theuluoedd**
- **Plant a Phobl Ifanc sy'n wynebu Rhwystrau Analluogi**, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n wynebu heriau iechyd meddwl ac yn profi tlodi
- **Oedolion**, pobl hŷn yn bennaf a gyfeirir gan ein partneriaid a'r rhai yn ein lleoliadau, **yn arbennig y rhai sy'n byw gyda dementia**
- Gofal Iechyd, Addysg a **gweithleoedd** y sector Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Beth Yw Ein Lleoliadau?

Mae Live Music Now bob amser wedi credu ym mhwystrwydd cysylltu gyda'n cymunedau yn eu lleoliadau. Mae hyn yn golygu bod ein gweithredu'n digwydd yn bennaf mewn:

- Ysgolion gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth ysgolion addysg arbennig
- Lleoliadau Gofal Iechyd
- Lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Y gymuned leol gan gynnwys llyfrgelloedd a hybiau cymuned eraill

Cynnig Hybrid

Yn ystod y pandemig COVID-19, fel nifer yn ein sector, roedd Live Music Now yn troi at gynnig a darlledu'r mwyafrif o'n gwaith ar-lein. Mae hyn wedi dwyn cyfleoedd newydd, dysgu a mewnwledigaeth. Gwelsom ei bod yn well gan rai o'n cyfranogwyr ymgysylltu'n ddigidol, o leiaf i ddechrau ac nid oes unrhyw amheuaeth y gall technoleg ein helpu i gyrraedd cymunedau nad oeddem cynt efallai'n gallu gweithio gyda nhw oherwydd rhwystrau cost neu bellter. Rydym yn cofleidio'r dysgu hwn: mae ein rhaglenni'n awr yn dilyn ymagwedd gyfun o waith ar-lein ac wyneb yn wyneb, wrth i ni gydweithio gyda phartneriaid a chyfranogwyr i lunio modelau sy'n cynnig y mynediad a'r gwerth mwyaf.



CYNNIG LIVE MUSIC NOW

Galw Cynyddol

Gwelsom yr angen am i'n gwaith gynyddu'n gyflymach dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r anfanteision a brofwyd gan nifer o bobl yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, wedi cynyddu'n anghymesur gan y pandemig COVID-19 gan ychwanegu straen pellach ar y systemau a oedd yn barod o dan bwysau. Wrth i'n poblogaeth heneiddio felly hefyd cyffredinolrwydd y clefyd newroddirwyol mewn oedolion hŷn. Gwelwyd cynnydd mewn deilliannau gofal iechyd gwael mewn cymunedau sy'n profi gwaharddiad, cyfraddau iechyd mamol yn dirywio ac argyfwng ariannu'n affeithio ar blant a phobl ifanc anabl gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cerddorion hefyd yn profi cyfnod anodd arbennig gyda nifer heb gael llawer o waith, os o gwbl, am yr 20 mis diwethaf a diwydiant sydd wedi bod yn araf i ymdopi a gwneud newidiadau i dangynrychiolaeth.



Gwyddom fod gan gerddoriaeth rôl i'w chwarae i ddatrys rhai o'r heriau hyn ac mewn meithrin bywydau hapus ac iachach. Mae ymyraethau cerddorol yn gadael etifeddiaeth ymhell ar ôl i'r nodyn olaf gael ei daro ac mae cit offer cerddorol sydd ar gael i'r holl staff yn ddull effeithlon a chost-effeithlon o gynnal effaith. Mae ein cerddorion yn dweud wrthym mai'r gwaith hwn yw'r peth mwyaf pwysig sydd ganddyn nhw yn eu portffolio, ei fod yn eu gwneud yn berfformwyr, athrawon ac asiantaethau diwylliannol. Er bod ein gwaith yn ceisio meithrin newid, rhaid i ni gofio ei fod hefyd yn hynod o hapus ac y gall munudau cerddorol byr sy'n cael eu rhannu, fod yn union hanfod cysylltiad dynol.



Mentrau Lefel Cenedlaethol

Gwelwn gyfleoedd i gyflenwi cerddoriaeth fyw i'n cymunedau craidd ar lefel genedlaethol. Mae tryloywder ac eglurder ein cynnig yn ganolog i'n gwaith ac rydym yn datblygu fframweithiau y gellir eu haddasu fydd yn cyflenwi lliffoedd incwm ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn darparu asgwrn cefn i'n prosiectau llai y gellir eu targedu at grwpiau o fuddiolwyr lleol mwy penodol.

Dros y 24 mis nesaf, bydd y symbyliadau hyn yn cynnwys:

1. **Ysbrydoli** – Ein prosiect fflaglong drwy weithio gyda darpariaeth ysgolion addysg arbennig a Hybiau/Gwasanaethau Addysg Gerddorol ar draws y DU. Drwy weithio gyda phartneriaid rhanbarthol, rydyn ni'n darparu gwasanaethau preswyl a datblygiad gweithlu i wella cyfleoedd ac ansawdd bywyd ar gyfer plant anabl a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
2. **Cerddoriaeth Fyw mewn Gofal** – Ein model preswyl gyda fframwaith datblygu gweithlu ar gyfer lleoliadau a Gofal Cymdeithasol Oedolion. Drwy fewnosod cerddorion mewn lleoliadau gofal, cyflenwi hyfforddiant a darparu citiau offer gofal cerddorol i staff, ein



nod yw gwneud lleoliadau gofal yn fannau hapusach i fyw a gweithio.

3. **Prosiect Silwli** mewn partneriaeth gyda Neuadd Carnegie – yn canolbwyntio ar iechyd meddwl amenedigol a chyflawni deilliannau iechyd sylweddol i deuluoedd sy'n wynebu heriau cymhleth. Hwn yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan GIG yng Ngorllewin Sir Efrog, Sir Gaer a Glannau Merswy a gan Gyngor Celfyddydau Cymru ym Mae Abertawe. Drwy ddefnyddio model cyflenwi hyblyg, rydym yn bwriadu lledaenu'r gwaith hwn yn genedlaethol.
4. **Caneuon a Sgonau** – Model cyngerdd misol o fewn y gymuned gan gasglu ynghyd oedolion hŷn ynysig ac unig drwy

- bartneriaethau gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol. O'u mewnosod o fewn hybiau a gwasanaethau llyfrgell y gymuned leol, mae hwn yn gyfle allweddol i gyd-leoli'r prosiect hwn gyda gwasanaethau hanfodol eraill gan gynnwys brechlynnau ffliw ac adnoddau cymuned fel hyfforddi ar gyfer defnyddio technoleg ac atal twyll i gefnogi byw iach, diogel, annibynnol ar gyfer aelodau hŷn y gymuned
5. **Cynnwys Fi** – Sesiynau un i un yn cael eu cyflenwi gan gerddorion Live Music Now. Mae'r model hwn yn cael ei gyflenwi ar hyn o bryd yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Iwerddon lle mae teuluoedd yn byw mewn amgylchiadau heriol. Mae'n galluogi gwaith pwrpasol sy'n creu effaith pwysig ar fuddiolwyr ungiol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei gyflenwi yng Ngogledd Iwerddon gyda dynion hŷn mewn lleoliadau gofal ac yng Nghymru ar gyfer teuluoedd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a heriau iechyd meddwl.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal peilotau o fentrau newydd ym mhob un o'n tair gwlad a bydd yn targedu'r rhai sy'n cyflenwi'r effaith mwyaf ar gyfer graddfa genedlaethol a chyflenwi.

“Beth yw rôl cerddor mewn cymuned?”

Mewnosod mewn Lle

Bydd Live Music Now yn dechrau ar strategaeth 10 mlynedd i fewnosod ein hymyraethau o fewn cymunedau penodol. Bydd yn gweithio fel cysylltydd ar draws awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau GIG, gofal cymdeithasol oedolion, gwasanaethau plant, hybiau a gwasanaethau addysg gerddorol a sefydliadau diwylliannol a chymunedau lleol eraill i gyflenwi cydraddoldeb gwasanaethau a mynediad. Bydd yn sefydlu **cerddorion fel ffigyrau allweddol o fewn cymunedau**, gan yrru asiantaeth economaidd a diwylliannol. Bydd yn ysbrydoli artistiaid talentog i weithio'n lleol a datblygu perthnasoedd tymor hir yn eu cymunedau eu hunain. Bydd y gwaith hwn hefyd yn galluogi cyd-greu a chyd-ddylunio gyda'r cymunedau ac yn defnyddio cynghreiriau ehangach i hyrwyddo cyd-leoli gwasanaethau a chyflenwi gwell gwerth am arian.

O fewn y cymunedau a dargedir, bydd Live Music Now yn cynnig ymyraethau sy'n gweithio gyda phobl o bob oed, yn canolbwyntio ar y rhai sy'n profi gwaharddiad ac anfantais gymdeithasol. Mae partneriaid o brifysgol wedi'u cynnwys i hyrwyddo gwerthuso tymor hir o bersbectif ein budd-ddeiliaid, data gyriant, dweud stori a'n dealltwriaeth o'n proses ein hunain.

Bydd tair blynedd gyntaf y gwaith hwn yn ymwneud â gwaith ymchwil a datblygu ac mae'n cynnal peilot ym Medway a Glannau Merswy. Dewiswyd y ddwy ardal hon fel ardaloedd o amddifadedd uchel ac anghyfartaledd sylweddol lle mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu'n barod at bŵer y celfyddydau. Dewiswyd Glannau Merswy fel man prawf oherwydd y nifer uchel o'n hymyriadau sy'n digwydd yn barod yn y gymuned lle mae gan Live Music Now bresenoldeb sefydlog (gwerthuswyd gan Brifysgol John Moores Lerpwl. Dewiswyd Medway fel man prawf oherwydd y gwrthwyneb: ni wnaed unrhyw waith yno (er bod gennym bartneriaethau newydd, addawol) ac felly mae'n gyfle i werthuso Gwaith Live Music Now o'r gwaelod i fyny (gwerthuswyd gan Brifysgol Caint).



Mae partneriaethau'n ffurfio sylfaen y strategaeth hon ac rydym wedi gosod amserlen realistig ac eto hyblyg i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gyda chymunedau lleol. Rydym yn gyffrous am yr hyn y mae'n rhaid i ni ei ddysgu ac wedi ymrwmo i ddatblygu prosiectau tymor hir cynaliadwy sy'n cyflawni anghenion lleol.

Cerddorion

Lle yw Live Music Now sydd wedi bod bob amser yn rhywle lle gall cerddorion ddatblygu eu crefft a mireinio eu sgiliau. Byddwn yn parhau i ddatblygu fframweithiau hyfforddi sy'n ymatebol i anghenion ein cerddorion a'n cyfranogwyr. Fel asiantau diwylliannol eu hunain, byddwn yn gweithio'n nes gyda'n cerddorion i ddatblygu ein rhaglenni a hyrwyddo eu twf o fewn cymunedau fel conglfeini cydlyniad a chynhwysiant cymdeithasol.



Fforwm Ymarfer Cerddorion

Cerddorion yw sylfaen ein holl waith ac mae'n hanfodol ein bod yn datblygu drwy:

1. **Esblygiad** – Rydym ni am gefnogi cerddorion ar adegau pontio yn eu gyrfaoedd, pryd bynnag bydd y foment honno'n cyrraedd. Pa un a ydyn nhw'n gerddorion cynnar yn eu gyrfaoedd yn cymryd eu camau cyntaf i mewn i'r proffesiwn neu'n fand pync gyda 30 mlynedd o brofiad gigio, mae lle yn ein gweithlu i unrhyw un sydd am gamu i mewn i wynebu pobl y gymuned. Hefyd, rydym yn dileu'r cyfyngderau amser ar ein cyflogaeth gan ein bod am gadw ein cerddorion o fewn teulu Live Music Now drwy gynnig cyfleoedd i ddatblygu, fentora a mwy o waith â dyfnder iddo gyda'n cymunedau..
2. **Cyfleoedd i rannu a gwahodd eraill i mewn**
Drwy weithio ar y cyd gyda Hybiau Addysg Gerddorol, sefydliadau datblygu cerddoriaeth a'r celfyddydau a chwaraewyr diwydiannau eraill ar gyfer cerddorion ifanc, bydd Live Music Now yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc i weld gyrfaoedd mewn cerddoriaeth yn uniongyrchol. Drwy gysgodi pobl wrth eu gwaith, mentoriaeth a sesiynau estyn allan, bydd Live Music Now yn dangos i gerddorion ifanc y gellir cael gyrfaoedd cynaliadwy

mewn cerddoriaeth, bod y gwaith hwn o'r safon uchaf yn rhyngwladol ac y gall ac y dylai gyflawni uchelgais bywyd allweddol.

3. **Dathlu** – Rydym am ddathlu ein cerddorion. Fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr, byddwn yn creu cyfleoedd i ddathlu eu gwaith yn gyhoeddus a'u cynnwys yn natblygiad creadigol prosiectau newydd.

Canolfan Hyfforddi – Mae Live Music Now wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein fframweithiau hyfforddi. Byddwn yn sicrhau cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gyflenwi a datblygu hyfforddiant. Bydd hyn er mwyn delio â darnio sectorau a sicrhau bod gan y cerddorion sy'n gweithio ar draws y diwydiant y sgiliau a'r offer angenrheidiol i fod yn llwyddiannus yn y gwaith hwn.

Eiriolaeth a Newid Systemau

Mae Live Music Now yn arweinydd yn y diwydiant hwn. Roedd yn un o'r rhai cyntaf i gyflenwi ymyriadau cerddorol ar sail tystiolaeth ac mae wedi cyflenwi rhaglenni o safon fyd-eang am dros 40 mlynedd. Mae tirlun y sector yn ddarniog. Mae gwaith rhagorol yn deillio o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae rhai'n canolbwyntio ar therapi cerddoriaeth bersonol nad sy'n cael ei gynnig gan Live Music Now bellach, eraill yn cyflenwi perfformiadau a mwyo yn gynnig o'r haenau estyn allan o sefydliadau diwylliannol mawr. Mae'n hanfodol bod y sector yn dod at ei gilydd i gynnig ymagwedd fwy unol gan wasanaethau cymunedau a phobl broffesiynoldiwydiannau. Teimla Live Music Now bod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd i'n cymunedau a'n partneriaid i gymryd safiad arweinydd drwy sicrhau trafodaethau i gynnwys eraill a llunio'r agenda. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r haenau canlynol:

- **Ymchwil** – Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gyflenwi a chyfrannu at y sylfaen tystiolaeth o gwmpas y pŵer a'r defnydd o gerddorion sy'n hyrwyddo newid ystyrlon. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda phrif sefydliadau ar y gwaith hwn,

gan gynnwys Prifysgol Roehampton i ddeall y diffygion mewn astudiaethau presennol, datblygu prosiectau ymchwil newydd a chefnogi ymchwilwyr cyn ac ar ôl eu doethuriaethau o fewn ein gweithlu. Credwn yn gryf fod y wybodaeth hon o fudd dim ond wrth ei rhannu, felly byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflwyno a rhannu ein darganfyddiadau ac yn gweithredu fel fforwm i gyfnewid gwybodaeth ar draws ein sector a'r diwydiant ehangach.

- **Gofal Cymdeithasol Oedolion** – Mae Live Music Now yn arwain y Tasglu Gofal Cerddorol sy'n canolbwyntio ar eiriol am fuddsoddiad mewn cerddoriaeth fel canolbwynt gofal person-ganolog, gan gydnabod y cyfleoedd a'r buddion y gall hyn eu dwyn i swyddogaethau craidd y sector. Credwn y dylai cerddoriaeth ystyrlon wedi'i chyflenwi'n ofalus, chwarae rôl allweddol wrth geisio trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion i fod yn fodel newydd sy'n addas i'r 21ain ganrif. Bydd yn cefnogi effeithlonrwydd a thwf wrth datblygu i wynebu'r heriau hollol real ar hyn o bryd.
- **Plant a Phobl Ifanc a Lefelu i Fyny** – Mae'r grŵp newydd Anghydraddoldeb Merched a

Mynediad i Gyfiawnder yn gweld Live Music Now yn camu i mewn i'r eiriolaeth i waredu Anghydraddoldebau Iechyd Merched. Mae'r gwaith hwn ar y cyd gyda Grŵp Cyllideb Merched, Gwasanaethau Merched a Mamolaeth GIG, UCL a phrif fudd-ddeiliaid eraill. Rydym yn eiriol dros datblygu'r asiantaeth a symudedd gwleidyddol merched drwy fentrau diwylliannol gan gynnwys y Prosiect Silwli, deiliant gwerthusiad allweddol oddi wrth waith Neuadd Carnegie.

- **Plant a Phobl Ifanc ac Addysg** – Rhaid i greadigrwydd bywyd cyfan ddechrau yn ystod plentyndod a dylai fod yn rhan greiddiol o'n system addysg ynghyd ag yn offeryn gwerthfawr i athrawon a gweithluoedd addysg. Mae Live Music Now yn eiriol dros werth, pwysigrwydd, rôl a'r defnydd o gerddoriaeth mewn ysgolion, yn arbennig o fewn darpariaeth ysgolion addysg arbennig. Credwn fod y cit offer cerddorol yn gwella'r profiad dysgu ac addysgu, ac rydym yn gweithio gyda Hybiau Addysg Gerddorol, ysgolion, gwasanaethau cerdd y gymuned ac awdurdodau lleol i ehangu mynediad a datblygiad darpariaeth gerddorol ar draws y DU.

- **Cerddorion** – Fel un o gyflogwyr mwyaf cerddorion ar eu liwt eu hunain yn y DU, mae gan Live Music Now rôl a chyfrifoldeb arweinydd o fewn y diwydiant cerdd. Datblygir partneriaethau gyda sefydliadau hyfforddi ar draws genres i ddatrys pynciau allweddol sy'n wynebu cerddorion heddiw:
- 1) **Llwyddiant** – delio â'r syniad mai 'llwyddiant' mewn cerddoriaeth yw bod yn unawdydd cyngerdd, chwaraewr mewn cerddorfa, neu bod yn flaenllaw yn Glastonbury a bod popeth arall yn radd o fethiant
 - 2) **Cyflog Teg am Waith Priodol** – gweithio gydag undebau a chyrff llafur i sefydlu cerdyn cyfradd ar gyfer cerddorion yn y sector iechyd i sicrhau bod cerddorion yn derbyn tâl teg am eu gwaith.
 - 3) **Mynediad i ddiwydiant** – gweithio ar draws addysg a chyrff datblygu i helpu i agor y diwydiant cerddoriaeth broffesiynol allan gyda chyfleoedd gyrfa clir a phrofiad gwaith ystyrlon gan ddelio â thangynrychioliaeth ar draws y gweithlu.
 - 4) **Pontio Gyrfaoedd** – creu llwybrau ac eiriol dros gerddorion gyda gyrfaoedd sefydedig i allu ymgysylltu â mwy o waith yn y cymunedau.

Lle I Greadigrwydd

Mae nifer o'n prosiectau mwyaf cyffrous yn codi drwy ymateb i anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol. Yn ychwanegol at ein gwaith pendant a strategol proactif â ffocws, mae'n bwysig ein bod yn cynnal hyblygrwydd a deinameg sy'n caniatáu i ni gofleidio cyfleoedd ac archwilio dulliau newydd o rannu ein gwaith y tu allan i'n llinynnau craidd. Enghreifftiau rhagorol o hyn yw:

- ***Bocsio curiad ar gyfer lechyd Ysgyfaint*** gyda Chanolfan Addysg Victoria yn Ne Orllewin Lloegr gyda'r artist Techneg Curiad yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n dioddef gan ffibrosis cystig a dystroffi cyhyrau. Roedd y prosiect blwyddyn hwn yn gorffen mewn brwydr bocsio curiad byw.
- ***Cardiau post o Swydd Efrog*** ffilmiau creadigol yn cysylltu'r tu mewn gyda'r awyr iach drwy gerddoriaeth.
- ***Ysgol Haf Telyn Hampsey*** gyda chymuned Garvagh, Gogledd Iwerddon. Gweithio gyda'r genhedlaeth nesaf o gerddorion Live Music Now, dan arweiniad Gráinne Meyer.
- ***Bin yno! Drwmwch hwnnw!*** Gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghasnewydd a Gwent yng Nghymru i adeiladu offerynnau o ddeunyddiau ail wrpas i gyfansoddi cerddoriaeth newydd a datblygu ymwybyddiaeth ecolegol newydd.
- ***Prosiect Trwbadŵr*** yn Llundain gan ddarparu sesiynau un i un ar gyfer trigolion cartrefi gofal nad sy'n gallu gadael eu hystafelloedd.



Cyflenwi'n Rhanbarthol

Byddwn yn parhau â'n cyflenwi rhanbarthol presennol ar y cyd gyda phartneriaid a lleoliadau lleol. Mae lleoliadau cyngherddau a pherfformiadau'n hynod bwysig i ni a hefyd yn darparu cyfleoedd eithriadol i'n cerddorion i ddatblygu eu sgiliau a rhannu eu hunaniaethau cerddorol eu hunain.

Mae gwaith un i un hefyd yn ffocws rhanbarthol gan ymateb i flaenoriaethau lleol. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys prosiectau yng Ngogledd Iwerddon gyda dynion hŷn mewn lleoliadau gofal gyda phryderon iechyd meddwl sylweddol a *Cynnwys Fi (Including Me)* yn Sir Gaer a Glannau Merswy yn gweithio gyda phobl ifanc ynysig, lle mae dros 50% ohonyn nhw â'r Saesneg yn ail iaith.

Gwerthusiad

Tystiolaeth a gwerthusiad yw sylfeini'r bwriad strategol newydd hwn. Rydyn ni wedi ymrwymo i gywirdeb y broses a chadernid yn ein gwaith na all ond dod o systemau gwerthuso sefydledig a gweithredol. Byddwn yn partneru gyda sefydliadau mawr fel Cyfalaf Diwylliannol ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl a Sefydliad Diwylliannol a Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol Caint i ddatblygu grwpiau llywio gwerthuso ar gyfer prosiectau mawr.

Credwn fod profiad o fywyd yn hanfodol i'r cywirdeb manwl hwn felly bydd cyfranogwyr yn cael eu cynnwys yn ein cynllun a'n cyflwyno gwerthuso. Byddwn hefyd yn datblygu dulliau newydd ar gyfer cyfranogwyr a chymunedau i gyd-lunio ac i fynegi barn mewn sut a beth rydym yn ei gyflwyno, gan gynnwys ar lefel bwrdd.

AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Wedi cynnal Adolygiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2020 a chymryd rhan mewn Fi Mewn! gyda Meistri Cerddoriaeth, mae Live Music Now yn mynd ar siwrne tuag at gwell adlewyrchiad o'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu gyda weithlu mwy cynrychioliadol ac arferion hurio mwy cyraeddadwy. Mae datblygu gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys cerddorion, staff (ar draws bob lefel o sefydliad Live Music Now) ac Ymddiriedolwyr wedi arwain at gynllun i gynyddu amrywiaeth lleisiau a phrofiadau bywyd ar draws ein sefydliad i gyd. Mae'r gweithgor hwn wedi targedu recriwtio cerddorion ac adolygu staff fel ei feysydd blaenoriaeth gyntaf.

Recriwtio Cerddorion

Yn draddodiadol, mae Live Music Now wedi cynnal clyweliadau mewn modd sy'n gyfarwydd i'r rhai yn y diwydiant cerddoriaeth glasurol gyda ffioedd clyweliad a phaneli rheithgor mawr. Er bod y rhain yn safonol, nid yw'r clyweliadau hyn yn adlewyrchu'r amgylchedd meithrin a chefnogol y mae cerddorion ar y cynllun yn ei brofi ac mae'n

cyflwyno rhwystrau sylweddol iddyn nhw gael eu derbyn. Ein gôl yw bod y broses recriwtio newydd yn cynnig gwerth i gerddorion sy'n: cymryd rhan ynddo - pa un a ydyn nhw'n ymuno â'n gweithlu ai peidio – ac y byddwn yn gweld cerddorion sy'n adlewyrchu'n fwy cywir y bobl rydyn ni'n gwasanaethu ar ein rhestr. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

1. **Chwalu'r rhwystrau** – Bydd Aelodau Cysylltiol Cerddorion Strategol yn cael eu recriwtio i ddatblygu perthnasoedd a phartneriaethau gyda sefydliadau a cherddorion sydd, yn draddodiadol, wedi cael eu heithrio o Live Music Now. Yn y lle cyntaf, byddan nhw'n targedu cerddorion sy'n cael eu nodi fel pobl anabl a'r rhai ar lwybrau anffurfiol i mewn i'r proffesiwn cerddorol. Rydyn ni'n creu haen ar gyfer cerddorion sydd wedi dod drwy raglenni a drefnwyd gan bartneriaid fel llwybr uniongyrchol i gyflogaeth er mwyn cyfrannu at ecoleg ein sector a chynnig cyfleoedd i'r rhai sy'n aml yn cael eu heithrio.
2. **Yn eu cynefin naturiol** – Mae perfformio'n sgil hanfodol i gerddorion Live Music Now, ond felly hefyd mynegiant, cyfathrebu, hyblygrwydd a haelioni hefyd. Bydd recriwtio agored yn dod yn broses gydweithredol



gan ddefnyddio fformatau gweithdai gyda chefnogaeth mynediad ar gael i bawb.

3. **Cefnogi twf** – Gwelsom effaith dinistriol pandemig COVID-19 ar gerddorion a byddwn yn parhau i fuddsoddi eu llesiant a'u datblygiad gyrra fel rhan o'n hyfforddiant a'n chefnogaeth fugeiliol, yn gweithio gyda nhw fel asiantau diwylliannol ac yn eiriol am well arferion gwaith ar draws ein diwydiant.

Y Tîm o Staff

Mae Live Music Now yn ffodus iawn o ffyddlondeb ei staff sy'n angerddol am y gwaith y maen nhw'n ei gyflawni. Rydym wedi datgan a nodi ein diwylliant mewnol ac wedi ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad parhaus pawb sy'n gweithio gyda ni. Cydnabwn ein bod angen profiad bywyd ehangach ac amrywiol leisiau o fewn ein tîm. Felly, rydym wedi rhoi cytundeb i Inc Arts Ltd i gynnal ymgynghoriaeth allweddol wrth adolygu ein polisiau recriwtio, systemau rheoli perfformiad, cyfathrebu a strategaeth er mwyn datblygu sefydliad mwy cynhwysol ac amrywiol. Bydd hon yn broses barhaus wrth i ni ddatod ac ail ddatblygu strwythurau a systemau presennol a gweithio i wneud Live Music Now yn gyflogwr agored a chynhwysol.

“Mae rhannu cerddoriaeth yn un o brofiadau gorau bywyd, mae'n creu hapusrwydd ynom.”

Live Music Now Pirate Code



Profiad Bywyd

I ni, mae amrywiaeth ystyrion yn cynnwys sicrhau bod lleisiau'r rhai â phrofiad bywyd yn eistedd ar draws ein sefydliad gan gynnwys ar lefelau llunio penderfyniadau. Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu gwaith strategol, gan gynnwys grwpiau cynghori i sicrhau bod ein cymunedau'n parhau'n ganolog i'n gwaith gan

gynnwys ein dull o lunio a chyflenwi rhaglenni. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar y cyd gyda'r tîm o staff, y bwrdd a'r gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant..

STRWYTHUR RHEOLI

Penderfynwyd ar strwythur rheoli Live Music Now fel system canghennau gan nodi byrddau a thimau rheoli lleol. Er bod hyn wedi galluogi datblygu partneriaethau rhanbarthol a lleol, mae hefyd yn ein hatal rhag sicrhau'r cyfleoedd sydd ar gael pan fyddwn yn gweithio fel sefydliad mwy cydlynol. Mae perthnasoedd lleol yn hanfodol ar gyfer ein llwybr ymlaen a byddan nhw'n parhau fel blaenoriaeth wrth i ni ailstrwythuro ein sefydliad er mwyn bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Pencadlys – Rydyn ni'n adleoli ein swyddfa gofrestredig i Lerpwl. Mae hwn yn ddatganiad bwriad ac yn ddealltwriaeth nad yw Llundain, er yn fywiog, deinamig a hynod bwysig, yng nghalon ein cymunedau. Mae nifer o'n peilotau'n cael eu cynnal yng Ngogledd Lloegr ac rydym yn awyddus i sefydlu ein hunain yn ddyfnach o fewn y rhanbarth hwnnw.

Cenedloedd – Mae gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon flaenoriaethau, demograffeg ac anghenion annibynnol, Rydym yn edrych ar ein swyddfeydd cenedlaethol i ddatblygu nodau strategol yn unol â'r llywodraethau datganoledig a chyflenwi strategaethau cenedlaethol

pwrpasol sy'n bwydo i mewn i agenda'r Deyrnas Unedig ochr yn ochr â mentrau a ddatblygwyd gan ein chwaer- sefydliad sef Live Music Now yr Alban.

Rhyngwladol – Byddwn yn parhau i gydweithio gyda changhennau rhyngwladol Live Music Now ac yn ceisio cyfleoedd i'n cerddorion a'n cymunedau i'w cysylltu ar y llwyfan byd-eang.

Gogledd Iwerddon – Bydd Gogledd Iwerddon yn edrych tuag at brif flaenoriaethau gweithio gydag Ymddiriedolaethau Iechyd a mentrau cymunedol ar raddfa fawr. Byddwn yn datblygu sail tystiolaeth benodol i Ogledd Iwerddon gan ystyried blaenoriaethau cymunedol ac anghenion cymdeithasol hynod wahanol o fewn y wlad

Cymru – Yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gyda blaenoriaethau canolog iechyd meddwl, bydd Cymru'n cyflenwi mwy o waith sy'n amgylchynu'r anghenion hyn. Hefyd, sefydlir sylfaen tystiolaeth i gefnogi twf sylweddol a llawer mwy o ymestyn ar draws y wlad.

Rhanbarthau Lloegr

- **Y Gogledd** – Bydd Pwerdy Gogledd Live Music Now yn ymgorffori'r ddwy gangen ogleddol ac yn ehangu ein cyrhaeddiad i gyfleoedd mewn ardaloedd newydd gan gynnwys Newcastle ac ardal arfordirol Northumberland a Manceinion Fwyaf. Gyda chysylltiadau agos ar draws y Gogledd Orllewin a nifer o heriau'n cael eu rhannu, bydd gwaith Gogledd Iwerddon yn dylanwadu ac yn bwydo i mewn i agenda Gogledd Lloegr.
- **Y Gorllewin** – Bydd Braich Orllewinol Live Music Now yn ymgorffori cangen y De Orllewin ac yn agor ein gwaith i gynnwys y Canoldir a siroedd Gorllewinol Lloegr. Gyda llinellau annelwig ar draws siroedd y gororau, bydd Cymru'n dylanwadu ac yn bwydo i mewn i agenda Gorllewin Lloegr.
- **Y Dwyrain** – Bydd Ochr Ddwyreiniol Live Music Now yn ymgorffori cangen y De Dwyrain ac yn agor ein gwaith i gynnwys siroedd dwyreiniol Lloegr sydd hyd yn hyn wedi gweld ychydig iawn o gyflenwi gan gynnwys Norfolk, Suffolk, Essex, Caint a'r Siroedd Cartref. Bydd Llundain o fewn y rhanbarth hwn ond bydd ffocws ehangach yn gweld ymestyn ymhell y tu hwnt i'r brifddinas.

Tîm y Staff – Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi yn ein tîm o staff. Mae'r nifer wedi bod yn llai drwy gydol y pandemig COVID-19, ac maen nhw wedi bod yn gweithio ymhell y tu hwnt i'w dyletswyddau. Dim ond drwy eu hymrwymiad, angerdd, sgil a brwdfrydedd rydym yn gallu cyflenwi ein cymunedau ac mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu'r nifer i reoli ein prosiectau a'n staff cyflenwi, gyda chefnogaeth hanfodol gweinyddiaeth, marchnata a chyfathrebu a datblygu. Rydyn ni'n gosod gwerth aruthrol ar ein diwylliant mewnol ac yn credu bod buddsoddi mewn llesiant, hyfforddiant a chynnydd gyrfaedd ein tîm o staff yn gwneud Live Music Now yn lle hapusach a iachach i weithio ynddo

Cerddorion – Rydym yn ystyried ein cerddorion fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf. Drwy ddatblygu llwybrau a recriwtio cerddorion newydd gobeithiwn roi'r gallu i fwy o gerddorion fyw a gweithio yn y trefi a'r mannau y maen nhw'n eu hadnabod a'u mwynhau, yn hytrach na chael eu gorfodi i symud i ganolfannau poblog mawr. Byddwn yn cynyddu lledaeniad daearyddol ein cerddorion fydd yn ein galluogi i gynyddu estyniad daearyddol ein gwaith.

Ni fydd yr ail-strwythuro hyn yn digwydd dros nos a byddwn yn parhau i weithio tuag at hyn mewn dull cynaliadwy a mesuradwy gan ddatblygu partneriaethau a chefnogi ein gweithlu wrth i ni wneud hynny.

Codi arian a Thwf

Bydd yr ail-strwythuro, y strategaeth newydd a'r twf rhagweladwy i gyd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Rydyn ni'n ceisio amrywio ein ffynonellau incwm i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy ond hefyd i gynyddu'r nifer o fuddiolwyr y gallwn eu gwasanaethu'n ystyrlon.

Byddwn yn datblygu ac yn cymell rhoddwyr unigol ar bob lefel drwy ddefnyddio ymgyrchoedd cyhoeddus a sefydlu cylch rhoddion. Byddwn yn datblygu partneriaethau agosach gyda chwmnïau corfforaethol lle mae eu gwerthoedd yn cyfateb i'n rhai ni a byddwn yn gweithio gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau i'n galluogi i gyflenwi ein Gwaith ar raddfa uchel. Byddwn hefyd yn amrywio'r refeniw a enillwyd gan alluogi sefydliadau'r sector i gael ein fframweithiau, rhaglenni a gwasanaethau.

I gyflawni hyn, byddwn yn buddsoddi yn ein timau Cysylltiadau Cyhoeddus, Marchnata, cyfathrebu a Datblygu. Erbyn 2027, ein 50fed blwyddyn, rydym am weld twf esbonyddol wrth i ni allu cyflawni mwy o'r heriau ar ein gwaith.

Delwedd Newydd

Mae ein hegwyddor sylfaenol - sicrhau bod cerddoriaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen fwyaf bob amser wedi bod yn agos iawn at ein calon. Mae gweledigaeth Yehudi Menuhin o fyd lle mae gan bawb fynediad i bŵer trawsnewidiol cerddoriaeth wedi ein gyrru ymlaen am dros 40 mlynedd. Wrth i'r sefydliad ddatblygu, rydyn ni'n newid y modd rydyn ni'n disgrifio ein hunain ac wedi bod yn gweithio gydag Ymgynghorwyr strategol Winster Marsh i egluro, cynrychioli a chyfathrebu ein gwerthoedd brand. Mae canlyniad y gwaith hwn yn ffurfio sylfaen hunaniaeth weledol newydd i'w lawnsio yn 2022 gan adlewyrchu'n well y sefydliad presennol a'r sefydliad rydym am ei ddatblygu i'r dyfodol.

EIN BREUDDWYD GYFUNOL

Rydym yn gyffrous am y cyfleoedd sydd wedi datblygu o fewn y sefydliad ac yn parhau'n ymrwymedig i wasanaethu ein cymunedau tra'n parhau i fod yn ddeinamig ac yn atebol i anghenion ein rhanddeiliaid: ein cyfranogwyr, cerddorion, partneriaid a'r gweithlu. Ni fydd hyn heb ei heriau ond edrychwn ymlaen at y siwrne ac at y profiadau newydd fydd yn ein hwynebu. Gwelwn fyd - cyfoethog mewn cyfathrebu, mewn creadigrwydd dirgrynol a mynegiant - sydd â cherddoriaeth yn ganolog ac yn cynnwys pawb.

Bydd yn ffraind gwybod ein bod wedi bod â rhan fechan i'w chwarae yn y creu hwnnw.





Live Music Now

46 Montclair Drive
Liverpool L18 0HB

info@livemusicnow.org.uk

www.livemusicnow.org.uk

**Teitlau'r lluniau**

Tudalen 2: Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd Yehudi Menuhin yn chwarae i'r rhai oedd wedi brifo yn y Fyddin Gynghreiriol. [Dysgwch mwy am ein hanes yma.](#) **Tudalen 3:** Cerddor Live Music Now, Moussa Dembele yn Vale School, Tottenham, Llundain. Credyd Llun: Ivan Gonzalez **Tudalen 4:** Cerddor Live Music Now, Julia Turner yn arwain sesiwn gerddorol aml-ghedlaeth yng nghartrefi gofal OSJCT yn Cheltenham. Darllenwch mwy yma . Credyd Llun: Evan Dawson **Tudalen 5 Chwith:** Cerddor Live Music Now, Maz O'Connor yng Nghartref Gofal MHA Bradbury Grange, Whitstable. Credyd Llun: Ivan Gonzalez **Tudalen 5 Y Dde:** Aelod o dîm Monkscroft ac un o'r trigolion yn mwynhau fideo a recordiwyd ynghynt gan y gantores/cyfansoddwr cân Julia Turner. [Darllenwch fwy yma.](#) **Page 6 Left:** Live Music Now

vocalist Olivia Gomez at Morel Court Care Home in Penarth, Wales.

Tudalen 6 Y Dde: Cerddor preswyl Live Music Now Alice Phelps yn Ysgol Arbennig Kingfisher Special School, Oldham. **Tudalen 7:** Mam a'i baban yn ystod sesiwn Prosiect Silwli yn Dechrau'n Deg, Dusty Forge, Caerdydd. [Darllenwch fwy yma.](#) **Tudalen 8:** Trigolion ac aelodau Cartref Nyrzio Tŷ Penylan, Caerdydd yn mwynhau cyngerdd #ReturnToLive gydag ensemble band taro Live Music Now Quartet19. **Tudalen 9:** [Kris Halpin](#) yn arddangos ei [Fenig MiMu](#) anhygoel i gerddorion Live Music Now yn ystod y Fforwm Ymarfer Cerddorion blynyddol. Credyd Llun: Richard Eaton **Tudalen 12:** Ensemble Live Music Now Gogledd Iwerddon [Réalta](#) yn cymryd rhan mewn cyngerdd cymuned misol yn y Keady Clachan, bwthyn carreg traddodiadol y tu allan i Limavady.

[Gwylwch ffilm fer yma.](#) **Tudalen 13:** Roedd cerddorion yn y llun hwn yn cronicleu eu profiadau o'r pandemig yn ein cyfres dyddiaduron. Chwith uchaf: [Tom Hawthorne](#), Dde uchaf: [Rosie Bergonzi](#), Canol chwith: [Akeim Toussaint Buck](#), Canol dde: [Tim Karp](#), Gwaelod chwith: [Mimi Doulton](#), Gwaelod dde: [Réalta](#) Darllenwch fwy o ddyddiadur cyfres y pandemig [yma.](#) **Tudalen 14:** Cerddorion Live Music Now Beatrice Newman (soddgrwth) a Rachael Elliot (ffidil) yn ysbyta'i Southmead a Cossham Bryste fel rhan o raglen Celfyddydau Ffres Ymddiriedolaeth Gogledd Bryste. Credyd Llun: Evan Dawson **Tudalen 17:** Cerddorion preswyl Live Music Now Deidre Galway a Conor Lamb yn arwain eu cyngerdd byw cyntaf gyda Larchwood Care's Apple Blossom Lodge yng Ngogledd Iwerddon. [Darllenwch fwy yma.](#)